PENNANT WALTERS

# Fferm Wynt Mynydd Llanhiledd

Cylchlythyr y prosiect: Tachwedd 2022

Mae Pennant Walters yn cynnig datblygu fferm wynt ar safle ym Mynydd Llanhiledd. Saif y safle ar dir i'r dwyrain o Lanhiledd, Aber-big, a Six Bells, ac i'r gorllewin o Bontnewynydd.



Mae'r cynlluniau'n cynnwys hyd at wyth tyrbin gwynt ag uchder llafn hyd at 180m. Amcangyfrifir y bydd y cynigion yn generadu hyd at 34MW o drydan, sy'n gyfwerth â darparu digon o bŵer i ddiwallu anghenion trydan blynyddol oddeutu 21,500 o gartrefi.*

* https://www.renewableuk.com/page/UKWEDExplained

**21,500** o gartrefi yn cael eu pweru gan y cynnig hwn

Cyfleoedd i gael **budd Cymunedol**

**Swyddi adeiladu** a chyfleoedd cadwyn gyflenwi

## Ymgynghoriad Statudol

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad ymgysylltu cynnar, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2021. Cawsom lawer iawn o adborth defnyddiol ac rydym wedi bod yn ystyried hyn, ochr yn ochr â chanlyniad arolygon ac asesiadau technegol pellach i ddatblygu ein cynigion ymhellach.

Hoffem eich gwahodd yn awr i gymryd rhan yn ein hymgynghoriad 'statudol' ffurfiol cyn i ni gyflwyno ein cais. Gallwch fynychu un o'n digwyddiadau galw heibio cyhoeddus ac/neu arddangosfa rithwir ar-lein ar ein gwefan.

## Arddangosfeydd Cyhoeddus

Dysgwch ragor a rhowch eich adborth ar y cynigion:

- **Sefydliad y Glowyr Llanhiledd,** Meadow St, Llanhiledd, Abertyleri, NP13 2JT 2pm-7pm, dydd Iau 8 Rhagfyr 2022
- **Canolfan Gymunedol Garndiffaith (Canolfan y Mileniwm),** Top Rd, Garndiffaith, Abersychan, Pont-y-pŵl, NP4 7LT, 2pm-7pm, dydd Gwener 9 Rhagfyr 2022

## Y Broses Gynllunio

Ystyrir bod y prosiect hwn yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) a rhaid i ni wneud cais i PEDW, a fydd yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru a wnaiff y penderfyniad terfynol ynghylch rhoi caniatâd cynllunio ai peidio.

Fel rhan o'r broses DNS mae'n ofynnol i ni baratoi a chyflwyno adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (PAC) yn manylu ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a sut y mae adborth wedi'i ystyried ar gyfer y prosiect. Yn dilyn ein hymgynghoriad statudol, byddwn yn paratoi ein cais terfynol i'w gyflwyno i PEDW - rydym yn rhagweld y bydd hyn yn gwanwyn 2023.

## Tir Comin

Mae'r rhan fwyaf o'r tir o fewn ffin arfaethedig y safle yn dod o dan y gofrestr tir Comin ac felly mae'n ofynnol i ni baratoi a chyflwyno cais eilaidd i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW), o dan Ddeddf Tiroedd Comin 2006.

Rydym yn cynnal ymgynghoriad penodol ar gyfer y tir o fewn y safle sydd o fewn Comin Mynydd Llanhiledd. Gan weithio'n agos gyda'r tirfeddianwyr, rydym wedi bod yn edrych i ddadgofrestru rhannau o dir Comin i ddatblygu'r tyrbinau arfaethedig a'r llwybrau mynediad cysylltiedig. Fodd bynnag, bydd unrhyw dir a dynnir o dir Comin yn cael ei amnewid.

Hoffem glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y Comin neu'n ei ddefnyddio, i'n helpu i sicrhau ein bod yn lleihau effaith ac yn cynyddu unrhyw fudd ehangach posibl drwy'r broses hon.

I ddarganfod mwy neu i roi sylwadau yn ymwneud â Mynydd Comin Llanhiledd cysylltwch gan ddefnyddio'r manylion yn y cylchlythyr.

## Cysylltu

Hoffem glywed eich sylwadau ar gynnig Fferm Wynt Mynydd Llanhiledd. Gallwch ddweud eich barn wrthym drwy lenwi ffurflen adborth ar-lein neu yn y digwyddiadau cyhoeddus.

E-bost: Mynydd-Llanhilleth@pennantwalters.co.uk
Rhadffôn: 0800 699 0081
Cyfeiriad post: FREEPOST TC CONSULTATION *(nid oes angen stamp)*

Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw **16 Ionawr 2023**.


## Ein cynigion wedi'u diweddaru

Yn ein hymgynghoriad blaenorol, cynigiom hyd at ddeuddeg tyrbin gwynt, ond ar ôl cael adborth am faint y datblygiad ac ymchwil dechnegol bellach, mae cynigion Mynydd Llanhiledd bellach yn cynnwys hyd at wyth tyrbin gwynt ag uchder llafn hyd at 180m, yr amcangyfrifir y byddant yn cynhyrchu 4-6MW yr un.

I grynhoi, bydd y cynigion yn cynnwys:

- Hyd at wyth tyrbin gwynt, yr amcangyfrifir y byddant yn cynhyrchu 4MW yr un
- Gwelliannau i ffordd fynediad bresennol, oddi ar y B4246
- Sylfeini tyrbin a phadiau craen ym mhob lleoliad tyrbin
- Ceblau pŵer tanddaearol
- Seilwaith cysylltiad grid, gan gynnwys is-orsaf ar y safle ac adeilad rheoli

Rydym wedi ymrwymo i leihau'r effaith ar atyniadau ymwelwyr cyfagos gan gynnwys Tirpentwys Cut a'r Blue Lagoon. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod y mynediad presennol ar gyfer hamdden ar Gomin Mynydd Llanhiledd yn cael ei gadw.






## Amdanom ni

Pennant Walters yw datblygwr ynni adnewyddadwy cartref mwyaf Cymru ac mae'n rhan o Grŵp Walters yn Hirwaun – cwmni lleol sy'n gweithredu'n genedlaethol, yn cyflogi hyd at 500 o bobl, llawer ohonynt yn Ne Cymru.

Ers 2003 mae Pennant Walters wedi datblygu, adeiladu a nawr yn gweithredu chwe fferm wynt a rhai datblygiadau solar yn Ne Cymru gan gynhyrchu cyfanswm o 127MW. Mae Pennant Walters yn ceisio datblygu perthynas hir-dymor gyda phob rhanddeiliad gan gynnwys cymunedau, tirfeddianwyr, awdurdodau lleol a rheoleiddwyr.

Mae gan Pennant Walters brofiad sylweddol o ddatblygu datblygiadau ynni adnewyddadwy yn hen feysydd glo De Cymru, felly mae gennym hanes cryf o gyflawni prosiectau ar safleoedd debyg i Mynydd Llanhiledd.

## Buddion cymunedol

Ar wahân i'r lleihad carbon amlwg a'r buddion cynaliadwyedd ynni i Gymru, mae cyfle arwyddocaol i sicrhau buddion lleol eraill, o ganlyniad i`r prosiect hwn.

Mae Pennant Walters yn gweithredu Cronfa Gymunedol ar gyfer pob un o'i brosiectau fferm wynt. Hyd yma, mae tua £4 miliwn wedi'i ddosbarthu i Dde Cymru i fentrau lleol pwysig.

Fel cwmni Cymreig lleol, bydd y prosiect hwn dan 'berchnogaeth leol', fodd bynnag, rydym wedi bod yn archwilio cyfleoedd perchnogaeth a rennir a pherchnogaeth gymunedol.

Gallwch ddysgu rhagor am y cyfleoedd perchnogaeth hyn yn un o'n digwyddiadau neu cysylltwch â ni drwy **Mynydd-Llanhilleth@pennantwalters.co.uk** , a rhowch 'Buddiannau cymunedol' yn y pwnc e-bost.

Rydym yn awyddus i glywed meddyliau lleol ar sut i reoli`r Gronfa Gymunedol, felly rhowch wybod am eich barn i ni.